

## **Cyhoeddir yr Hysbysiad Statudol hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Canolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ**

**Hysbysir** trwy hyn, yn unol ag Adran 41 ac Adran 43 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Côd Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, ar ôl ymgynghori â'r bobl angenrheidiol, yn cynnig:

- Sefydlu ysgol Gymraeg newydd i'w chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i fechgyn a merched 3-18 oed ar ddau safle, un yng ngogledd y fwrdeistref sirol a'r llall yn y de. Y safle yn y gogledd fydd Glan yr Afon, Ystalyfera SA9 2JJ a'r safle yn y de fydd Southdown View, Sandfields, Port Talbot SA12 7AH.
- Cau Ysgol Gynradd Gymraeg y Wern, Heol Clare, Ystalyfera, Abertawe SA9 2AJ, ysgol gynradd gymunedol Gymraeg a gynhelir ar hyn o bryd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.
- Cau Ysgol Gyfun Ystalyfera, Glan yr Afon, Ystalyfera, Abertawe SA9 2JJ, ysgol uwchradd gymunedol Gymraeg a gynhelir ar hyn o bryd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Ymgwymerodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot â chyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymateb y cyngor i'r materion hyn a barn Estyn ar gael ar dudalen Gwella Ysgolion Strategol Adran Ysgolion gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot trwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol: <http://www.npt.gov.uk/default.aspx?page=6476>

Cynigir y caiff ei roi ar waith ar 1 Medi 2017.

Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn ysgol gymunedol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot fydd yr awdurdod derbyn.

Nifer y disgyblion a dderbynnir yn y flwyddyn ysgol gyntaf pan fo'r cynnig ar waith yw:

26 i ddisgyblion 4 oed

240 i ddisgyblion 11 oed

130 i ddisgyblion 16 oed sy'n dechrau yn y chweched dosbarth

Cyfanswm disgyblion yr ysgol newydd fydd 1,773 a fydd yn cynnwys: 200 cyfnod cynradd (gan gynnwys 20 o leoedd meithrin rhan-amser); 680 cyfnod uwchradd (safle'r gogledd); 650 cyfnod uwchradd (safle'r de); a 243 yn y chweched dosbarth.

Bydd disgyblion sydd eisoes wedi'u derbyn i'r ysgol ar gyfer y cyfnod cynradd yn cael eu trosglwyddo'n awtomatig heb angen gwneud cais arall am le ym Mlwyddyn 7.

Cynigir y bydd trefniadau derbyn yr ysgol newydd yn galluogi dewis yn ôl addasrwydd, gallu neu fand disgyblion.

Y ddarpariaeth arall i'r disgyblion a fyddai fel arfer wedi mynd i Ysgol Gynradd Gymraeg y Wern ac Ysgol Gyfun Ystalyfera fydd yn yr ysgol newydd. Bydd yr ysgol yn ysgol gymunedol Gymraeg a bydd ganddi ddigon o le i dderbyn y disgyblion a fyddai fel arfer yn mynd i Ysgol Gynradd Gymraeg y Wern ac Ysgol Gyfun Ystalyfera.

Bydd y trefniadau cludiant yn unol â Pholisi Cludiant Rhwng yr Ysgol a'r Cartref Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Gall pobl wrthwynebu'r cynnig o fewn 28 niwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynnig hwn, sef erbyn **6 Hydref 2015**.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes (at sylw Debora Holder) yn y cyfeiriad canlynol: Canolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ neu eu hanfon trwy e-bost i [ssip@npt.gov.uk](mailto:ssip@npt.gov.uk)

Llofnod:



Aled Evans, Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes

**Dyddiad: 9 Medi 2015**

### **Nodiadau Esboniadol:**

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r hysbysiad ond bwriedir iddo esbonio ei ystyr cyffredinol)

- (i) Bwriedir cau YGG y Wern ar 31 Awst 2017 ac, o 1 Medi 2017, bydd disgyblion sy'n mynd i YGG Y Wern yn trosglwyddo i'r ysgol newydd (yn amodol ar ddewis rhiant).
- (ii) Bwriedir cau YG Ystalyfera ar 31 Awst 2017 ac, o 1 Medi 2017, bydd disgyblion sy'n mynd i YG Ystalyfera yn trosglwyddo i'r ysgol newydd (yn amodol ar ddewis rhiant).
- (iii) Bydd yr ysgol newydd yn darparu ar gyfer y dalgylchoedd a wasanaethir gan YGG y Wern ac YG Ystalyfera.
- (iv) Bydd addysg cyfnod cynradd, gan gynnwys darpariaeth meithrin ran-amser, yn cael ei darparu ar safle YGG y Wern tan fis Medi 2018 pan fydd adeiladau'r ysgol gynradd ar gael ar safle'r gogledd.
- (v) Bydd addysg cyfnod uwchradd ar gael ar safleoedd y gogledd a'r de gyda safle'r de'n darparu ar gyfer disgyblion yn y dalgylchoedd a wasanaethir gan YGG Castell-nedd, YGG Tyle'r Ynn ac YGG Rhos Afan.
- (vi) Ym mis Medi 2017, bydd safle'r de'n derbyn disgyblion 11 oed yn unig, gan gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn i gael yr ystod oedran 11-16 gyfan.

- (vii) Bydd addysg y chweched dosbarth ar gael ar safle'r gogledd.
- (viii) Cyfanswm y lleoedd disgyblion ym Mlwyddyn 7 ar safle'r gogledd fydd 136 a chyfanswm y lleoedd disgyblion ym Mlwyddyn 7 ar safle'r de fydd 130.
- (ix) Nodir y rhesymau am y cynnig yn y ddogfen ymgynghori sydd ar gael ar dudalen Gwella Ysgolion Strategol gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot neu gellir cael mynediad iddynt trwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol: <http://www.npt.gov.uk/default.aspx?page=6476>
- (x) Mae Polisi Cludiant Ysgol y cyngor ar gael ar wefan y cyngor: [http://www.npt.gov.uk/pdf/Home\\_to\\_school\\_transport\\_policy\\_2014.pdf](http://www.npt.gov.uk/pdf/Home_to_school_transport_policy_2014.pdf)
- (xi) Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yw'r awdurdod derbyn. I'r disgyblion sydd ar y gofrestr yn YGG y Wern ac YG Ystalyfera, byddwn yn eu derbyn i'r ysgol newydd trwy eu trosglwyddo'n awtomatig (yn amodol ar ddewis rhiant). Defnyddir Polisi Derbyniadau Ysgol y cyngor ar gyfer yr holl dderbyniadau eraill. Gellir gweld Polisi Derbyniadau Ysgol y cyngor ar wefan y cyngor: [http://www.npt.gov.uk/pdf/Admissionstoschools\\_policy\\_20142015.pdf](http://www.npt.gov.uk/pdf/Admissionstoschools_policy_20142015.pdf) neu mae ar gael gan y Tîm Derbyniadau Ysgolion, Canolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ.

*\*Mae copïau caled o ddogfennau ar gael ar gais o: Cyfarwyddiaeth Addysg, Canolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ.*